Cyngor Cymuned Cwm Cadnant Community Council.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd y Plwyf, Llandegfan, Nos FERCHER, 9fed IONAWR 2019.

COFNOD:

1708. PRESENNOL:
Cynghorydd Mr Idris Alan Jones (Cadeirydd), Mrs Nia Foulkes, Mrs Nia Wyn Jones, Mr Tom Cooke, Mr Eurfryn Davies, Mr John Griffiths, Mr John Wyn Griffith, Mr Alun Roberts a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

1709. YMDDIHEURIADAU:
Cynghorydd Mrs Jean Davidson & Miss Joan Kirkham.

Cynghorydd Sirol Mr Carwyn Jones.

1710. CROESO.

1710.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng Idris Alan Jones ac fe ddymunodd Blwyddyn Newydd Dda i pob aelod.

1710.2 Cyfeiriodd y Cadeirydd, gyda tristwch, at farwolaeth sydyn Mr Eric Williams, Gwelfor, Bro Llywelyn ar drothwy y Nadolig. Treuliodd Eric lawer o flynyddoedd fel Cynghorydd Cymunedol ac talodd teyrnged sydyn ar rhan y Cyngor ac fod yntau, y Clerc, Cynghorydd Mr Ernie Thomas a Mr Tom Cooke wedi mynychu y cnebrwn yng Nghapel Barachia ar y 24ain Rhagfyr.

1710.3 Roedd y Cadeirydd a'r Clerc wedi derbyn llythyr oddiwrth Cynghorydd Mr Ernie Thomas ac fe ddarllenodd yn dweud ei fod wedi penderfynnu ymddiswyddo o'r Cyngor oherwydd iechyd ac ymrwymiadau eraill ac i ddiolch i'r Cyngor am eu cefnogaeth yn ystod y pymtheg mlynedd diwethaf. Derbyniwyd yr ymddiswyddiad gyda gofid ac i anfon llythyr ato yn diolch am ei wasanaeth. **Y Clerc i gychwyn y broses o hysbysebu sedd gwag ar y Cyngor drwy y Cyngor Sir yn y drefn arferol.**

1711. DATGAN DIDDORDEB PERSONOL / RHAGFARNOL.

1711.1 Dangosodd Cynghorydd John W Griffith diddordeb personol yn un sy'n rhagfranu yn holl Ceisiadau Cynllunio gan ei fod yn aelod o Bwyllgor Cynllunio y Cyngor Sir ond roedd wedi cael caniatad arbennig. Arhosodd yn yr ystafell i wrando ac ni chymerodd unrhyw rhan yn y trafodaethau.

Arwyddo.....

1712. CYWIRO & DERBYN COFNODION CYFARFODYDD.

1712.1 **Cofnodion Cyfarfod Llawn 14/11/2018** – derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod y cofnodion yn rhai cywir. (JG/TC).

1712.2 **Cofnodion Cyfarfod Llawn 12/12/2018** - derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod y cofnodion yn rhai cywir. (JG/NF).

1713. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

1713.1 **Arwyddion Fflachio Llansadwrn** – parhau i ddisgwyl am datblygiadau gosod yr arwydd. Disgwylir adroddiad gan Cynghorydd Sirol Carwyn Jones yn y cyfarfod nesaf.

1713.2 **Taflunydd Newydd i'r Neuadd** – disgwyl Cwmni Mad Sound & Lighting ymweld a'r Neuadd er mwyn cychwyn gosod y taflunydd - dim adroddiad pellach ar hyn o bryd.

1713.3 **Tô Fflat Neuadd y Plwyf** – adroddiad oddiwrth Cynghorydd Nia Foulkes nad oedd datblygiad ar y gwaith atgyweirio er pob ymdrech ganddi yn dilyn sawl trafodaeth gyda Cwmni Bridge Roofing. Oherwydd yr amser sydd wedi mynd heibio, rhoddodd yr aelodau caniatad iddi cysylltu gyda'r cwmni eto gyda cynnig ola yn gofyn iddynt cychwyn y gwaith cyn diwedd y mis neu fydd rhaid ystyried cwmni wahanol. **CYTUNO AC ADRODD YN NOL YN Y CYFARFOD NESAF.**

1713.4 **Drws Tân & Toiledau Dynion Neuadd y Plwyf –** disgwyl am adroddiad archwiliad cyn gwneud cais cynllunio rhestredig er mwyn cychwyn y gwaith addasu.

1713.5 **Sustem Sain Neuadd y Plwyf –** gwelir cofnod 1713.2 uchod.

1713.6 **Biniau Newydd Neuadd y Plwyf –** cadarnhad fod trefniant troli a dau focs newydd wedi cyrraedd.

1713.7 **Clo Drws Ffrynt y Neuadd –** angen cysylltu gyda Cwmni Cloeon er mwyn gosod Clo perthnasol i'r Drws Ffrynt. **Clerc i drefnu.**

1713.8 **Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannaol –** atgoffa y bydd rhaid i pob aelod o'r Cyngor wneud penderfyniad erbyn y cyfarfod nesaf ac ymateb yn swyddogol i'r Clerc.

1713.9 **Cyfarfod ar y Cyd gyda Cyngor Tref Biwmares (A545)** – dim adroddiad pellach ar hyn o bryd.

Arwyddo.....

1714. MATERION PRIFFYRDD.

1714.1 **Cyfarfod gyda Cyngor Tref Biwmares A545** – gwelir cofnod 1713.9 uchod.

1714.2 **Hanner Marathon Ynys Mon –** i'w chynnal ar 3/3/2019 ac fod darn A545 rhwng Porthaethwy a Biwmares wedi cau dros dro o 8:30yb hyd at 12:30yp.

1714.3 **Materion Parcio Pentre Llandegfan –** trafodwyd sawl safle yn y pentre oedd yn achosi pryder ac i monitro y sefyllfa ac efallai ymestyn gwahoddiad i'r Heddlu atom yn y Gwanwyn/ Parking Issues.

1714.4 **Pryderon Baw Ci & Sbwriel –** cafwyd trafodaeth byr pryderon yr aelodau ac penderfynnu rhannu'r gwybodaeth yma yn y cyfryngau cymdeithasol er mwyn darganfod ymateb a barn trigolion y pentref.

1714.5 **Goleuadau Stryd** – fe nodwyd Cynghroydd Alun Roberts ei fod wedi derbyn cwynion nad oedd rhai o goleuadau stryd o gwmpas y pentref yn gweithio ac ei fod wedi dod a hyn i sylw yr Adran Briffyrdd.

1715. MATERION CYLLID.

1715.1 Cafwyd adroddiad llawn y Clerc o Daliadau a Derbyniadau Cyfrifon y Cyngor a'r Neuadd am Mis Rhagfyr 2018 ac fe arwyddwyd yr adroddiad yma gan y Cadeirydd.

1715.2 Dywedodd y Clerc nad oedd Cofnodion Pwyllgor Cyllid (3/1/2019) wedi ei cwblhau eto ond penderfynwyd aelodau i gymeradwyo argymelliad y Pwyllgor Cyllid a cadw lefel y priseb hyd at £31,500

1715.3 **Bancio Ar-Lein** – soniodd y Clerc y dylai'r Cyngor ystyried fynd ar-lein gyda cyfrifion banc. **Cytunwyd yr aelodau a gofyn iddo wneud ymholidau.**

1716. CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

1716.1 Cais Cynllunio Llawn Addasu & Ehangu yn:
LLEOLIAD: Gweldir, Lon yr Eglwys, Llandegfan – HHP/2018/33.
Penderfyniad – DIM SYLWADAU.

1716.2 Cais Gosod Llwybr Cerdded Newydd yn:
LLEOLIAD: Ynys y Big, Glyn Garth, Porthaethwy – FPL/2018/34.
Penderfyniad – Peidio cefnogi'r cais ar sail yr amgylchedd presennol, cynefin sawl aderyn ac fod hyn angen arolwg. Hefyd, effaith weledol ac fod y safle mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

Arwyddo.....

1716.3 Cais Cynllunio Llawn Addasu & Ehangu yn:
LLEOLIAD: 17 Trem Arfon, Llandegfan – 17C452A.
Penderfyniad – DIM SYLWADAU.

1716.4 Cais Cynllunio Llawn ar gyfer Dymchwel yr Annedd Presennol ynghyd a Chodi Annedd Newydd yn:
LLEOLIAD: Camlan, Lon Ganol, Llandegfan – FPL/2018/32.
Penderfyniad – DIM SYLWADAU.

1717. DYDDIAD CYFARFOD NESAF – 13 CHWEFROR 2019.

1717.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod.
Clowyd y cyfarfod am 9:00yh.

Arwyddo…….....CADEIRYDD.....DYDDIAD.

Cwm Cadnant Community Council.

Minutes of the Monthly Meeting of the Council held in the Parish Hall, Llandegfan on Wednesday, 9th JANUARY 2019.

1708. PRESENT:

Councillor Mr Idris Alan Jones (Chair), Mrs Nia Foulkes, Mrs Nia Wyn Jones, Mr Tom Cooke, Mr Eurfryn Davies,Mr John Griffiths, Mr John Wyn Griffith, Mr Alun Roberts a Mr J Alun Foulkes (Clerk).

1709. APOLOGIES:

Councillors Mrs. Jean Davidson & Miss Joan Kirkham.

County Councilor Mr Carwyn Jones.

1710. WELCOME.

1710.1 Cllr Idris Alan Jones welcomed everyone to the meeting and wished everyone a Happy New Year.

1710.2 The Chairman, with sadness, referred to the sudden death of Mr Eric Williams, Gwelfor, Bro Llywelyn on the threshold of Christmas. Eric spent many years as a Community Councilor and paid a sudden tribute on the Council's behalf and that he, the Clerk, Councillors Mr Ernie Thomas and Mr Tom Cooke had attended his funeral at Barachia Chapel on the 24th December.

1710.3 The Chairman and Clerk had received a letter of resignation from Councillor Mr Ernie Thomas that was read out to members. He had decided to resign from the Council because of health and other commitments and he thanked the Council for their support during the last fifteen years. The resignation was accepted, with regret and it was resolved to send him a letter of thanks for his services. The Clerk was then requested to begin the process of advertiseing a vacant seat on the Council through the County Council in the usual order.

Sign.....

1711. DECLARATIONS OF PERSONAL INTEREST / PREJUDICIAL.

1711.1 Councillor John W Griffith declared a personal interest that was prejudicial on all the listed Planning Applications as he was a member of the County Council's Planning Committee. However, he has received special consent and stayed in the room to listen and did not take any part in the discussions.

1712. TO ACCEPT & APPROVE MINUTES OF MEETINGS.

1712.1 Minutes of the Full Council Meeting 14/11/2018 - the minutes were received and signed as accurate. **(JG / TC).**

1712.2 Minutes of the Full Council Meeting 12/12/2018 - the minutes were received and signed as accurate. **(JG / NF).**

1713. MATTERS ARISING FROM THE MINUTES.

1713.1 **Flashing Road Sign at Llansadwrn** - continue to wait for the sign to be installed. A report by County Councillor Carwyn Jones is expected at the next meeting.

1713.2 **New Projector to the Hall** - expecting Mad & Lighting Company to visit the Hall to install the projector - no further report at the moment.

1713.3 **Parish Hall Flat Roof** - Councillor Nia Foulkes gave a report that there was no development on the repairs despite all her efforts following several discussions with Bridge Roofing. Due to the time that has now passed, members gave her permission to contact the company again with a last offer of asking them to begin the work before the end of the month or a different company will have to be considered. **AGREED AND TO REPORT BACK TO NEXT MEETING.**

SIGN.....

1713.4 **The Parish Hall Fire Exit Door & Men's Toilets** - awaiting the architect's report before a scheduled listed building planning application to start the conversion works.

1713.5 **Parish Hall Sound System** - see minute reference 1713.2 above.

1713.6 **New Bins for the Parish Hall** - confirmation that a trolley arrangement and two new boxes had arrived.

1713.7 **Locks for the Hall's Front Door** - need to contact a reputable Locksmith to fit a Replacement Lock to Door Front. **Clerk to arrange.**

1713.8 **Draft Annual Report of the Independent Remuneration Panel for Wales** - reminder that all members of the Council will have to make a decision on whether to accept their £150.00 allocation by the next meeting and to respond officially to the Clerk.

1713.9 **Joint Meeting with Beaumaris Town Council (A545)** - no further development to report at present.

1714. HIGHWAYS MATTERS.

1714.1 **Meeting with Beaumaris Town Council A545** – see minute reference 1713.9 above is shown.

1714.2 **Half Anglesey Marathon** - to be held on 3/3/2019 and that the A545 between Menai Bridge and Beaumaris will be closed temporarily from 8:30 am to 12:30 pm.

Sign.....

1714.3 **Llandegfan Village Parking Issues** - several sites were discussed in the village that were giving cause for concern and it was agreed to monitor the situation and to extend an invitation to the Police to the April meeting.

1714.4 **Dog Fouling & Littering** - Members concerns were briefly discussed and it was resolved to share this information on social media platforms in order to gauge the reaction and opinions of the village residents.

1714.5 **Street Lighting** – County Councillor Alun Roberts stated that he had received complaints that some street lighting around the village were not working and that he had brought this to the attention of the County Council's Highways Department.

1715. FINANCIAL MATTERS.

1715.1 The Clerk of the Council had prepared a list of the Council and Parish Hall Payments and Receipts for December 2018 and this was duly received, accepted and signed by the Chairman.

1715.2 The Clerk informed the meeting that the Minutes of the Finance Committee (3/1/2019) had not yet been completed but members resolved to approve the Finance Committee's recommendation and to maintain the level of the Precept at £ 31,500

1715.3 **On-Line Banking** - the Clerk mentioned that the Council should consider going online with their bank accounts. **Members agreed and asked that he makes inquiries.**

Sign.....

1716 NEW PLANNING APPLICATIONS.

1716.1 Full Planning Application to Alter & Extend at:
LOCATION: Gweldir, Lon yr Eglwys, Llandegfan – HHP/2018/33.
DECISION – NO OBSERVATIONS.

1716.2 Application to Construct a Timber Frame Walk Way at:
LOCATION: Ynys y Big, Glyn Garth, Porthaethwy – FPL/2018/34.
DECISION: Not to support the application based on the current environment, the habitat of several birds and that this needs a full survey. Also, visual impact concerns and that the site is in an Area of Outstanding Natural Beauty

1716.3 Full Planning Application to Alter & Extend at:
LOCATION: 17 Trem Arfon, Llandegfan – 17C452A.
DECISION – NO OBSERVATIONS>

1716.4 Full Planning Application to Demolish the Existing Dwelling and Erect a New Dwelling at:
LOCATION: Camlan, Lon Ganol, Llandegfan – FPL/2018/32.
DECISION – NO OBSERVATIONS.

1717. DATE OF NEXT MEETING - 13 FEBRUARY 2019.

1717.1 The Chair thanked members for attending the meeting and Closed the meeting at 9:00 p.m.

Sign.....CHAIRMAN.....Date.